

## **POLISI IAITH A DIWYLLIANT**

### **1.0 IAITH A DIWYLLIANT**

- 1.1 I ganiatau fod unrhyw un sy'n cysylltu neu'n delio â Chyngor Cymuned Y Felinheli yn cael gwneud hynny drwy ddefnyddio y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 1.2 I hyrwyddo a datblygu cynladwyedd ieithyddol.
- 1.3 I sefydlu mai Cymraeg yw Iaith swyddogol mewnol Cyngor Cymuned Y Felinheli gan gynnig unrhyw gymorth sydd ei angen ar Gynghorwyr a'r Clerc i wella eu defnydd o'r Gymraeg.

### **2.0 DELIO GYDA'R CYHOEDD**

- 2.1 Cymraeg yw Iaith swyddogol y Cyngor a iaith gweinyddu mewnol y Cyngor.
- 2.2 Mae gan pob aelod o'r Gymuned yr hawl i gysylltu â'r Cyngor mewn unrhyw Iaith.
- 2.3 Dylai pob aelod o'r Cyngor sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd fedru gwneud hynny yn y ddwy iaith.
- 2.4 Os oes cyfarfod cyhoeddus ar unrhyw adeg, dylid darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd oni bai fod y Cyngor o'r farn nad oes ei angen.

### **3.0 CYSYLLTIADAU AC ARWYDDION**

- 3.1 Gellir cysylltu a'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe fydd y Cyngor yn cysylltu yn ôl yn yr iaith â dderbyniwyd yr ohebiaeth.
- 3.2 Pan mae'r Clerc yn cysylltu am y tro cyntaf gydag unrhyw unigolyn, fudiad neu asiantaeth, dylid gwneud hynny yn y Gymraeg neu yn ddwy ieithog.
- 3.3 Fe fydd y Cyngor yn defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar enwau llefydd, afonydd, mynyddoedd a.y.y.b., yn ychwanegol i enwau Cymraeg ar asiantaethau ar wahan i pan mae'r Cynghorwyr wedi caniatáu defnyddio fersiwn gwahanol.
- 3.4 Dylai pob hysbyseb fod yn y ddwy iaith ar wahan i:-
  - (a) hysbyseb yn y Gymraeg yn unig mewn papurau newydd Cymraeg.
  - (b) hysbysebion sy'n cael ei rhoi mewn papurau newydd mewn manau eraill o Ewrop, fydd yn cael eu rhoi yn Iaith y papur newydd hwnnw.
  - (c) hysbysebion am swydd ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol, dylid fod yn Gymraeg yn unig gyda nodyn yn Saesneg yn esbonio natur y swydd.

### **4.0 STAFF**

- 4.1 Er mwyn i'r Cyngor wireddu y polisi, dylai pob aelod o'r Cyngor a'r Clerc fedru cysylltu a'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg os yn bosib.
- 4.2 Fe fydd y Cyngor Cymuned yn cefnogi ac yn annog pob aelod i wella eu ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg pe mynnir drwy annog yr aelodau fynychu cyrsiau os yn berthnasol.

- 4.3. Os nad yw'n bosib i gyflogi person dwyieithog i swydd y clerch bydd arbennig, ceir caniatad i hysbysebu am berson di-Gymraeg gyda'r amod ei fod/eu bod yn dysgu y Gymraeg o fewn cyfnod o chwe mis.
- 4.4. Fe ddylai unrhyw apwyntiad gael ei wneud ar yr amod eu bod wedi dysgu y Gymraeg yn lafar ac ysgrifenedig i safonau derbynniol o fewn dwy flynedd.

## **5.0 CYFARFODYDD**

- 5.1. Fe fydd pob agenda, adroddiad a chofnodion y Cyngor yn ogystal ag unrhyw Is-bwyllgor yn y Gymraeg yn unig, oni bai fod y Cyngor o'r farn nod angen fersiwn dwyieithog.
- 5.2. Yn y Cwrdd Plwyf, mae gan aelod o'r cyhoedd yr hawl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhagfyr 2010
- 5.3. Gall darpariaeth i gyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ogystal â chwrdd plwyf blynyddol y Cyngor pan ddisgwylir aelodau o'r cyhoedd Saesneg eu h'iaith i'r cyfarfodydd a phan mae;’r Cyngor yn ystyried fod angen digonol. Rhagfyr 2010

## **6.0 GWASANAETH I ASIANTAETHAU**

- 6.1. Dylid defnyddio y Gymraeg pan yn cysylltu â chyrrff cyhoeddus o fewn Cymru.
- 6.2. Dylai unrhyw Gwmni, Asiantaeth neu fudiad sy'n cael cymorth ariannol gan y Cyngor gael polisi Iaith tebyg i'r Cyngor Cymuned gan ganiatau hefyd fod unrhyw gysylltiad gyda'r cyhoedd sydd ganddynt yn defnyddio y dwy iaith. .

